Croeso i Flwyddyn 3!

Edrychwn ymlaen at flwyddyn hapus a llwyddiannus gyda'n gilydd.

Gwybodaeth ddefnyddiol i Rieni /Gofalwyr:

Thema:
Yn ystod yr hanner tymor hwn, byddwn yn dilyn y thema '**Y Byd a'r Gofod'**, felly, bydd llawer o'r gwaith a wneir yn y dosbarth yn ymwneud â'r thema yma. Mae'r disgyblion eisoes wedi cael cyfle i drafod yr hyn maent yn ei wybod ac i gynllunio yr hyn hoffent ei ddysgu am y topig hwn, gan ddilyn y 'Dull Leonardo'. Os oes gennych unrhyw wybodaeth, er enghraifft mewn llyfrau, sydd yn ymwneud â'r thema, mae croeso i'ch plentyn ddod â nhw i'r dosbarth.

Gwaith Cartref:

Bydd y disgyblion yn derbyn gwaith cartref Iaith ar ddydd Llun ac fe fydd y gwaith yn cael ei gasglu ar ddydd Iau. Bydd gwaith Mathemateg yn cael ei osod ar ddydd Iau ac yn cael ei gasglu ar fore Llun.

***Noder:** O dro i dro, bydd y gwaith cartref yn cael ei osod ar Hwb+ ac fe fydd y plant yn cael eu hysbysu o hynny.

Sillafu:

Bydd gan y disgyblion lyfr sillafu ar gyfer y ddwy iaith. Gosodir geiriau bob bore Llun ac yna bydd cwis sillafu yn cael ei gynnal ar fore Gwener. Gosodir geiriau Cymraeg a Saesneg bob yn ail wythnos. Mae lleoedd gwag wedi eu gadael o fewn y llyfrau fel gall y disgyblion ymarfer sillafu'r geiriau.

Darllen:

Bydd eich plentyn yn cael **llyfrau Cymraeg** a **Saesneg** ar gyfer darllen adref ynghyd â **Llyfr Cofnod** i gofnodi y darllen a fyddant yn ei wneud adref. Bydd y plant yn dod â'u llyfrau adref mewn ffeil bob dydd. Disgwylir i'r plant ddod â'u llyfrau darllen i'r ysgol bob dydd er mwyn darllen yn y dosbarth, yn ogystal. Rydym wedi sefydlu system lle byddwn yn **newid** eu **llyfrau darllen bob Dydd Llun** a **Dydd Iau** (yn ôl eu anghenion unigol). Ond. os bydd eich plentyn wedi cwblhau'r llyfrau tu allan i'r dyddiau hynny, 'rydym yn annog y plant i ddarllen ystod o ddeunydd addas sydd ar gael iddynt adref, er enghraifft, llyfrau amrywiol, cylchgronnau a phapurau newydd. Pan yn darllen gyda'ch plentyn, gofynnwn i chi **nodi y tudalennau a ddarllenwyd ac arwyddo'r Llyfr Cofnod**, os gwelwch yn dda.

Addysg Gorfforol:

Bydd y **wers addysg gorfforol** yn digwydd bob b**ore Llun**. Bydd disgwyl i'r plant ddod â **gwisg yn cynnwys esgidiau addas** ar gyfer y gwersi hyn.

Offer:
Mae croeso i'r disgyblion ddod â **châs pensiliau ac adnoddau defnyddiol eraill** i'r dosbarth ond mae'n bwysig nodi mai eu cyfrifoldeb eu hunain yw edrych ar ôl eu heiddo personol.

Os oes gennych gwestiwn am yr uchod neu unrhyw fater arall mewn perthynas â'ch plentyn, mae croeso i chi gysylltu â ni.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Miss S Jones (Athrawes Dosbarth)

Welcome to Year 3!

We look forward to a happy and successful year together

Useful information for Parents / Guardians :

Theme:
Our chosen **theme** for this half term is '**The Earth and Space**' therefore much of our work in the classroom will follow this theme. The pupils have been discussing what they already know and planning what they wish to learn about this topic, following 'The Leonardo' approach. If you have any information, books or resources relating to this theme at home – your child is welcome to bring them to school.

Homework:

Pupils will receive language homework every Monday which will be collected on Thursday. Mathematics homework will be set every Thursday and collected the following Monday.

* Please note that some homework tasks will be set through Hwb+. Pupils will be notified of this accordingly.

Spelling:

Every pupil will have a spelling book for each language. Words will be set every Monday and a spelling quiz held on Friday (Welsh and English words set every other week). Spaces have been left in their spelling books so that they can practise the words.

Reading:

Each pupil is given **Welsh** and **English** books which will be taken home on a daily basis. Pupils are also expected **to bring their books to school every day** so that they can also read them in class. We have a system where we change **reading books** on **Mondays and Thursdays,** according to individual need. However, if your child finishes a book outside this arrangement, we encourage pupils to read a range of suitable material made available for them at home e.g. various books, newspapers, magazines. When reading with your child, please make a **note of the pages that have been read, and sign within the Record Book.**

Physical Education:

PE lessons for Year 3 will take place on **Monday mornings**. Pupils are expected to bring their **PE kit** including **suitable footwear** for these lessons.

Resources:
Pupils may bring their own **pencil case** and various useful resources to class, but we emphasise that it is their own responsibility to look after all personal belongings.

If you have any questions regarding the above or any other matter in relation to your child, you are welcome to contact us.

Thank you for your support and co-operation.

Miss Sara Jones (Class Teacher)